Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Astudiaeth achos arfer da:

# Cynllun Gwarantu Cyfweliad i Siaradwyr Cymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Tachwedd 2025

## Cyflwyniad

Mewn cam arloesol i hyrwyddo dwyieithrwydd a chryfhau'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cyflwyno cynllun cyfweliad gwarantedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae'r fenter hon yn cynrychioli newid chwyldroadol ym maes recriwtio llywodraeth leol yng Nghymru, gyda'r nod o gynyddu nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Cefndir a chyd-destun polisi

Mae gan y Cyngor strategaeth recriwtio sydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, yn mynnu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn prosesau recriwtio'r Cyngor. Mae Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022–2027 y Cyngor yn ymrwymo ymhellach i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu a'r gymuned.

Nododd y Cyngor bod nifer yr ymgeiswyr oedd yn medru'r Gymraeg yn isel ar gyfer swyddi gwag ar draws adrannau'r Cyngor. Roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cynnig gwarant cyfweliad i gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, felly penderfynwyd mabwysiadu cynllun tebyg gyda'r nod o gynyddu nifer y staff sy'n medru darparu gwasanaethau yn Gymraeg ar ran y Cyngor. Lansiwyd y cynllun ar yr 31ain o Orffennaf 2024, gan roi sylw penodol iddo yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd fis Awst 2024.

Mae'r cynllun yn rhan o strategaeth ehangach y Cyngor i gefnogi Safonau'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus, yn ogystal a sicrhau cynnydd fydd yn cyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

## Y Cynllun Gwarantu Cyfweliad

O dan y cynllun newydd hwn, mae unrhyw ymgeisydd sy'n medru siarad Cymraeg ac sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer swydd a ymgeisir amdani yn cael cyfweliad yn awtomatig. Mae hyn yn berthnasol i ystod eang o swyddi, nid dim ond y rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Un o brif nodweddion y cynllun yw ei fod yn berthnasol i bob swydd wag o fewn y Cyngor.

Y nod wrth gyflwyno'r cynllun a gwarantu cyfweliad i siaradwyr Cymraeg yw:

- Cynyddu nifer y staff sy'n medru darparu gwasanaethau yn Gymraeg;
- Grymuso siaradwyr Cymraeg llai hyderus i ddefnyddio'r iaith yn broffesiynol ac fel rhan o'i swydd; a
- Creu gweithle sy'n annog defnydd o'r Gymraeg ar bob lefel hyfedredd.

Wrth ymgeisio am swydd, gofynnir i ymgeiswyr nodi p'un a ydych yn siarad Cymraeg i Lefel 3 neu uwch yn ogystal â bodloni meini prawf hanfodol y swydd benodol er mwyn bod yn gymwys i gael cyfweliad gwarantedig. Nid oes prawf iaith oni bai bod y swydd benodol yn gofyn am sgiliau iaith ar lefel uwch. Gofynnir i ymgeiswyr dicio blwch ar y ffurflen gais am swydd os ydynt am wneud cais yn defnyddio'r cynllun yma, sydd yn ymrwymo'r unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd.

Mae'r cynllun yma yn ateb yr her nodwyd gan Comisiynydd y Gymraeg o gynnal sgiliau Cymraeg ein pobl ifanc a throi siaradwyr y Gymraeg yn ddefnyddwyr tymor hir.

## Gweithredu a chydymffurfio

Mae'r cynllun wedi'i ymgorffori yn fframwaith ehangach y Cyngor ar gyfer recriwtio a dethol, sy'n cynnwys Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd wag, canllawiau clir ar lefelau sgiliau iaith a'u perthnasedd i swyddogaethau, ac integreiddio gyda Chynllun Gweithredu 5 Mlynedd y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg.

Nod y cynllun yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn gweithlu'r Cyngor gan sicrhau bod pob tîm ac adran yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu Cymraeg ar draws y sefydliad. Canolbwyntio ar ddatblygu hyder unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yw bwriad y Cynllun.

## Traweffaith y cynllun

Ymhlith yr effeithiau positif o'r cynllun gwarantu cyfweliad, nodwyd bod gwelededd a statws uwch i'r Gymraeg o fewn gwasanaethau cyhoeddus y Cyngor a chynrychiolaeth well i siaradwyr Cymraeg mewn llywodraeth leol yn ogystal â gwasanaeth dwyieithog gwell.

Mae data'r Cyngor yn dangos bu cynnydd sylweddol mewn ceisiadau gan unigolion sy'n medru'r Gymraeg yn y flwyddyn gyntaf o dan y cynllun yma.

Ar sail data y flwyddyn gyntaf ers cyflwyno'r cynllun gwarantu cyfweliad:

- Rhwng Gorffennaf 2024 a Gorffennaf 2025, penodwyd 213 o siaradwyr Cymraeg gan y Cyngor;
- Gwnaeth 343 o ymgeiswyr ddefnyddio'r cynllun, gyda 177 o'r ymgeiswyr yn cael cynnig cyfweliad.
- Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, bu cynnydd o 16.4% yn nifer yr ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg a benodwyd neu gafodd gynnig swydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Roedd yr amrywiaeth yn y swyddi lle penodwyd staff Cymraeg newydd, o gynorthwywyr llyfrgell i rolau o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, theatrau a gwasanaethau hamdden (gan gynnwys hyfforddwyr nofio).

## Gwersi i Sefydliadau Eraill

Er y bu yn gynllun, yn sgil ei natur dadleuol, a oedd yn mynnu gwaith paratoi trwyadl cyn ei gyflwyno gerbron cynghorwyr, mae llwyddiant blwyddyn gyntaf y cynllun wedi profi bod modd cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi gyda'r Cyngor, sydd yn ei dro yn gwella ac ymestyn y gwasanaethau ddarperir yn Gymraeg gan y Cyngor.  Mae'n gynllun arloesol sydd yn ymarferol, effeithiol ac yn ateb gofynion strategol yn ogystal a nodi llwyddiant o fewn y flwyddyn gyntaf o'i fabwysiadu. Mae staff ac ymgeiswyr am swyddi o fewn y Cyngor yn ymwybodol bod defnyddio'r Gymraeg yn elfen bwysig wrth ystyried ceisio am swyddi gyda'r Cyngor, ac mae'r cynllun yn cynnig enghraifft weithredol a llwyddiannus i gyrff cyhoeddus eraill ar sut medrir cynyddu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg o fewn y sector gyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro wedi esgor ar gynyddu amrwyiaeth a chynhwysiant o fewn y Cyngor yn ogytsal a chryfhau gwasanaethau Cymraeg ddarperir gan y Cyngor. Mae'r dull gweithredu, er yn syml, wedi bod yn effeithiol gyda'r ymateb yn gadarnhaol ac yn dangos potensial y cynllun i sefydliadau eraill i'w ddatblygu gweithlu sydd yn medru'r Gymraeg.

## Manylion Cyswllt

- **Sefydliad:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- **Swyddog Cyswllt:** Dr Lisa Sheppard Thomas – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – Y Gymraeg
- **E-bost:** Lisa.C.SheppardThomas@rctbc.gov.uk

RHONDDA CYNON TAF